OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 342 (Cy. 49)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad ras 10K y Trallwng sy'n cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; neu

(iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi digwyddiad ras 10K y Trallwng ac am resymau diogelwch yn gysylltiedig â’r digwyddiad.

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 05:00 o’r gloch ar 26 Mawrth 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Mawrth 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau a Beicwyr**

1. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Broad Street a High Street sy'n ymestyn o gyffordd Broad Street â Berriew Street, Church Street a Severn Street hyd at gyffordd High Street â Jehu Road.

2. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Berriew Street a Berriew Road sy'n ymestyn o gyffordd Berriew Road â'r C2005 Red Lane hyd at gyffordd Berriew Street â Broad Street, Church Street a Severn Street.